# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-11.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon, a datgan buddiannau

(09.30)

### 2 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – tystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: rhan 1

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 35)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Olwen Spiller, Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd - Llywodraeth Cymru

Roger Herbert, Pennaeth Monitro, Tystiolaeth ac Asesu Ansawdd Aer - Llywodraeth Cymru

Helen Rowley, Cyfreithiwr - Llywodraeth Cymru

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o fwriad polisi

Dogfennau atodol:

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Briff ymchwil - Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)
Crynodeb o’r darpariaethau - Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

## Egwyl (10.30-10.40)

## 3 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - tystiolaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: rhan 2

(10.40-11.30)
Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
Olwen Spiller, Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd - Llywodraeth Cymru
Roger Herbert, Pennaeth Monitro, Tystiolaeth ac Asesu Ansawdd Aer - Llywodraeth Cymru
Helen Rowley, Cyfreithiwr - Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

(11.30)

### 4.1 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(Tudalennau 36 - 37)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd mewn perthynas â'r amserlen arfaethedig ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

### 4.2 Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

(Tudalennau 38 - 39)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd mewn perthynas â Bil Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Rwystrau Technegol sy'n effeithio ar Fasnach

**4.3 Cysylltedd digidol yng Nghymru**

(Tudalennau 40 - 47)

Dogfennau atodol:

Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor: Cysylltedd Digidol - band eang a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022

**4.4 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd**

(Tudalen 48)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

**4.5 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 49 - 50)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**4.6 Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 51 - 52)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

**4.7 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24**

(Tudalennau 53 - 54)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gadeiryddion Pwyllgorau mewn perthynas â dogfennau'r gyllideb ddrafft a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(11.30)

**Cyfarfod preifat (11.30-12.30)**

**6 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**

**7 Fframwaith cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU – briffio technegol**

(Tudalennau 55 - 64)

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil - Fframweithiau Cyffredin Dros Dro: Cynllun Masnachu Allyriadau (Saesneg yn unig)

**8 Craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru – trafod adroddiad drafft y Pwyllgor**

**9 Trafod y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â dogfennau'r gyllideb ddrafft a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

**10 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor**

(Tudalennau 65 - 71)

Dogfennau atodol:

Papur - Blaenraglen waith (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

16 Mawrth 2023

Annwyl Elin,

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - amserlen y gwaith craffu

Diolch am eich llythyr ar 1 Mawrth yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am amserlen arfaethedig y gwaith o graffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen arfaethedig yn ei gyfarfod ar 16 Mawrth 2023.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1, sef 14 Gorffennaf. O ran dyddiad cau Cyfnod 2, mae'r Pwyllgor yn fodlon mewn egwyddor, gan gydnabod nad yw'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno'n ffurfiol eto ar amserlen y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref. Ar ôl cytuno ar y dyddiad cau, byddwn yn ysgrifennu atoch eto os byddwn yn rhagweld unrhyw anawsterau â dyddiad cau Cyfnod 2.

I droi at fater ehangach, ond perthnasol, yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2022, ymrwymodd y Prif Weinidog i gyflwyno dau Fil arall yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol: Bil cydsynio seilwaith a Bil diogelwch tomenni glo, ac mae'r ddau ohonynt yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn. Er mwyn cadw at yr ymrwymiad hwn, byddai angen cyflwyno'r Biliau hyn cyn diwedd tymor yr haf. Mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch amseriad y Biliau'n ei gwneud yn anodd cynllunio'n rhaglen waith ar gyfer gweddill tymor yr haf.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ofyn i'r Trefnydd gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Bil cydsynio seilwaith a'r Bil diogelwch tomenni glo cyn diwedd tymor yr haf.

Gan dybio bod y ddau Fil yn cael eu cyflwyno a'u hanfon atom gyda'r gofyniad arferol i gyflwyno adroddiad cyn pen 12 wythnos, byddai'r Pwyllgor yn craffu ar dri Bil yn olynol. Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ystyried hyn wrth gynnig amserlenni gwaith craffu mewn perthynas â'r Bil cydsynio

seilwaith a’r Bil diogelwch tomenni glo. Byddwn, wrth gwrs, yn hapus i roi barn ar yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y Biliau hynny pan fyddant ar gael.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/0880/23

Elin Jones MS/AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.Cymru

22 Mawrth 2023

Annwyl Elin

Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi pasio’r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ar 6 Rhagfyr 2022. Er mwyn tryloywder, hoffwn ddisgrifio bwriadau’r Llywodraeth o ran Cysyniad Brenhinol a dod â’r Ddeddf i rym.

Rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd dystiolaeth i dri phwyllgor. Copïaf y llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Mae’r Bil yn ennyn Cytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnachu Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy’n cynnwys mesur cyfreithiol i roi cyfnod rhesymol (chwe mis fel rheol) rhwng pasio a chyhoeddi deddfwriaeth sy’n effeithio ar fasnach a dod â hi i rym. Mae’r gofyniad er mwyn caniatáu i fusnesau yn aelod-wledydd y WTO addasu eu cynhyrchion i fodloni gofynion y gofyniadau newydd. Mae’r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sylweddol a fydd yn cychwyn y diwrnod ar ôl Cysyniad Brenhinol. O ganlyniad, ni fwriadaf osod y Sêl Gymreig ar y Breinlythyrau nes bod y cyfnod chwe mis i hysbysu’r WTO wedi dod i ben yn gynnar ym mis Mehefin.

Dyma’r tro cyntaf ers i’r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd i’r Senedd basio Bil sy’n ennyn y broses WTO hon. Yn ddatblygiad o ymarfer da, yn y dyfodol sicrhaf y cewch eich hysbysu mewn ysgrifen am unrhyw ddeddfwriaeth arall y disgwyliwn i ennyn y weithdrefn WTO hon.

Rwy’n hapus i drafod yr ymagwedd hon yn bellach gyda chi pan gwrddwn heddiw. Rwy’n copïo’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Seilwaith;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

# Eitem 4.3

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Seilwaith Digidol – Band Eang**

**Diweddariad Chwefror 2023**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatblygu mentrau cyhoeddus sy'n sicrhau bod yr 1% na allant gael mynediad at fand eang gweddus ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddatblygu mentrau cyhoeddus newydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion penodol Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion eisoes yn ymgysylltu â'u cydweithwyr yn yr Adran Technoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gysylltu â safleoedd anodd iawn eu cyrraedd mewn ystod o fforymau, gan gynnwys cyfarfodydd dwyochrog a chyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr gweinyddu datganoledig eraill, a Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â seilwaith digidol. Rydym hefyd yn ymateb yn rheolaidd i alwadau am dystiolaeth, er enghraifft, galwad diweddar gan DCMS am dystiolaeth ar gysylltu safleoedd anodd iawn eu cyrraedd. Bydd cyfle pellach i ddarparu ymateb ffurfiol i ymgynghoriad disgwyliedig ar y mater hwn yn ddiweddarach eleni.

**Diweddariad:**

Rydym yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar draws amrywiaeth o ymyriadau i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi pa safleoedd sydd heb fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy drwy'r Adolygiad o'r Farchnad Agored a phrosesau Adolygu'r Cyhoedd fel rhan o ddatblygu Project Gigabit yng Nghymru. Mae swyddogion hefyd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu gyda'r diwydiant fel rhan o'r broses i ddatblygu'r prosiect.

Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu â'u cymheiriaid yn yr Adran Technoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar ddatblygu ymyrraeth y DU i fynd i'r afael ag adeiladau anodd ac anodd iawn eu cyrraedd, yn fwyaf diweddar mewn cysylltiad â safleoedd treialu yng Nghymru lle bydd technolegau lloeren yn cael eu profi. Nid yw ymgynghoriad arfaethedig gan Lywodraeth y DU ar safleoedd sy'n anodd iawn eu cyrraedd wedi ymddangos eto.

Rydym hefyd yn parhau i bwyso am newidiadau i Gynllun Talebau Band Eang Gigabit i fodloni anghenion Cymru sydd wedi arwain at Lywodraeth y DU yn cynyddu gwerth y talebau i adlewyrchu cost cyflenwi mewn ardaloedd mwy heriol fel cefn gwlad Cymru.

Mae swyddogion yn y broses o ddatblygu ac asesu opsiynau i ddarparu cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru i geisio darparu band eang cyflym a dibynadwy o

fewn ardaloedd Cymru sydd anoddaf eu cyrraedd, er nad yw hwn yn gyfrifoldeb datganoledig.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais hirdymor i weld tua 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at eu cartref. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n fodlon bod y lefel bresennol o fynediad at fand eang yng Nghymru yn gydnaws â'i huchelgais.

**Ymateb: Derbyn**

Yn ôl ystadegau diweddaraf Ofcom mae 95% o safleoedd yn gallu manteisio ar fand eang cyflym iawn yng Nghymru. Er ein bod yn fodlon y bydd hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o bobl Cymru i weithio gartref, rydym yn cydnabod bod yna gartrefi yng Nghymru o hyd nad oes ganddynt fynediad at fand eang y mae modd ei ddefnyddio. Mae Ofcom yn amcangyfrif mai tua 15,000 yw cyfanswm y safleoedd sydd heb o leiaf 10 megabit yr eiliad o gyflymder lawrlwytho.

Er nad yw hyn yn faes sydd wedi'i ddatganoli ac felly cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw mynd i'r afael â'r broblem, rydym wedi camu i'r adwy yn gyson i fynd i'r afael â'r safleoedd hynny sydd heb gysylltiad band eang y gellir ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd mae sawl cam ymyrryd perthnasol ar waith, gan gynnwys ein rhaglen ffeibr llawn gwerth £56 miliwn gydag Openreach sy'n targedu tua 40,000 o eiddo, cynllun Allwedd Band Eang Cymru a'r Gronfa Band Eang Lleol gwerth £20 miliwn.

**Diweddariad**

Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido prosiectau sy'n gwella cysylltedd lle mae gwella lefelau cysylltedd digidol yn cyfrannu at nodau polisi ehangach, fel ei huchelgais sero net.

**Ymateb:** Derbyn

Ein ffocws yw cynyddu cysylltedd i'r holl drigolion, busnesau a'r cyhoedd a'r trydydd sector. Mae cysylltedd digidol yn sail i amrywiaeth eang o uchelgeisiau polisi ac yn cyfrannu at nifer o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru ffyniannus.

**Diweddariad:**

Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 4**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan Ofcom bod pryderon yn cael eu datrys ynghylch y mudo i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn y chwe mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn pryderu am effaith bosibl y mudo i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd yn enwedig mewn perthynas ag effaith toriadau pŵer ar y gallu i wneud galwadau brys neu weithrediad priodol gwasanaethau brys sy'n dibynnu ar y rhwydwaith cyfnewidfeydd ffôn cyhoeddus (PSTN), gan gynnwys larymau rhybudd a larymau eraill. Mae swyddogion yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y grŵp o swyddogion ar draws Whitehall ar ddiffodd y PSTN ac maent wedi codi pryderon ynghylch effaith toriadau pŵer yn y fforwm hwn.

Rydym hefyd wedi trafod ein pryderon gydag Ofcom ar sawl achlysur. Mae Ofcom wedi gosod safonau gyda'r nod o fynd i'r afael â pharhad gwasanaethau yn ystod toriadau pŵer. Bydd swyddogion yn parhau i gyflwyno sylwadau ac yn gofyn am sicrwydd na fydd y newid i'r Protocol Llais dros y Rhyngrwyd yn peryglu’r gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Mae swyddogion wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant i gynnal nifer o seminarau i swyddogion a chyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'r opsiwn i ddiffodd y PSTN ac i amlygu'r effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus a'r sectorau y maent yn eu cynrychioli neu'n gweithio gyda nhw.

Yn gynharach eleni fe ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at Brif Weithredwyr yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion ac i dynnu sylw at seminar ymwybyddiaeth sy'n cael ei chynnal gan Ofcom.

**Diweddariad:**

Mae Ofcom yn eu cynllun arfaethedig o waith yn ystod 2023/24 yn nodi bod ymrwymiad i weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod y cyfnod pontio arfaethedig yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn diogelu cwsmeriaid. Yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eglurhad am fanylion yr ymrwymiad a'r sicrwydd hwn y bydd Ofcom yn arfer yr holl ysgogiadau rheoleiddio sydd ar gael i sicrhau na all y diwydiant telathrebu ac na fydd yn mynd yn ei flaen nes bod y pryderon o ran diogelwch a lliniaru diogelwch yn gysylltiedig a cholli pŵer yn cael sylw llawn.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad hefyd yn awgrymu y dylai Ofcom gynnal gwerthusiad o'r risgiau o'r mudo arfaethedig yn y diwydiant i nodi bylchau mewn parodrwydd, a rhannu'r dadansoddiad hwn gyda chyrff sydd â diddordeb gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae swyddogion yn parhau i gynrychioli pryderon Llywodraeth Cymru gan gynnwys y grŵp ar draws Whitehall ar ddiffodd PSTN, a chynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf

ym mis Ionawr. Bu swyddogion hefyd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod bwrdd crwn diweddar a drefnwyd gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a oedd yn canolbwyntio ar effaith y newid drosodd i VoIP.

Bydd swyddogion yn parhau i gyfarfod ag Ofcom i drafod pryderon manwl am barodrwydd ar gyfer symud i VoIP.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Ofcom, a darparwyr i archwilio cyfleoedd i gynyddu'r nifer sy'n ymuno â'r tariff cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn y chwe mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion yn yr Uned Cynhwysiant Digidol sy'n adrodd i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn edrych ar ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol ac ystyried os yw paramedrau'r tariffau hyn yn mynd yn ddigon pell.

Un opsiwn mae swyddogion yn ei archwilio, yn ddibynnol ar gyllid ychwanegol, yw cynnwys ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol yn rhan o'r ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi'. Drwy'r ymgyrch hon, gellid datblygu adnoddau gweithio gyda sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys ein rhaglen gaffaeledig, Cymunedau Digidol Cymru, Ofcom, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Comisiynydd Pobl Hŷn, i ledaenu negeseuon allweddol. Byddai angen i unrhyw waith ychwanegol ar ymgyrch 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol, dargedu hysbysebion traddodiadol e.e. radio a theledu, o ystyried y gynulleidfa darged.

Braf oedd nodi mewn uwchgynhadledd ddiweddar a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd Digidol Llywodraeth y DU, Nadine Dorries, fod nifer o weithredwyr band eang a ffonau symudol mwyaf y DU wedi cytuno i gyfres o fesurau ynglŷn â thariffau cymdeithasol.  Mae'r rhain yn cynnwys caniatáu i gwsmeriaid sy'n cael trafferth gyda biliau symud i becynnau rhatach heb dâl neu gosb, cytuno ar gynlluniau talu y gellir eu rheoli, ac opsiynau i wella cynigion cost isel presennol.

Mae cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU am system newydd i symleiddio'r mynediad i fand eang rhatach i'w groesawu, gan y bydd hyn yn caniatáu i bobl sy'n derbyn budd-daliadau penodol ofyn i gwmnïau band eang wirio eu cymhwysedd ar gyfer tariffau cymdeithasol. Aeth y system, a fydd yn cael ei rheoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn fyw ar 22 Awst a bydd swyddogion Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chydweithwyr yn Adran Technoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU i ddeall sut bydd y system yn cael ei monitro er mwyn sicrhau llwyddiant.

**Diweddariad:**

Bu swyddogion yn gweithio gyda'r DCMS (cyn cyhoeddi newidiadau Llywodraeth y DU 7/2/23) i sicrhau bod adnoddau sy'n cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol yn cael eu rhannu drwy randdeiliaid ledled Cymru. Aeth swyddogion y DCMS i gyfarfod o fwrdd y Rhaglen Sgiliau a Chynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2022 a oedd yn cynnwys trafodaeth ford gron ar dariffau cymdeithasol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae hyn hefyd wedi cynnwys sicrhau bod yr adnoddau a ddatblygwyd gan DCMS yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, a oedd, o 20 Chwefror, wedi'u cadarnhau a'u rhannu gyda'n rhanddeiliaid er mwyn codi ymwybyddiaeth.

Mae swyddogion hefyd mewn cysylltiad ag Ofcom ac mae disgwyl i'r data cyfredol ar ddefnyddio tariffau cymdeithasol ar lefel y DU gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill/Mai 2023. Bydd hyn yn helpu swyddogion i ddeall a yw'r gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth yn ystod gaeaf 2022 wedi cael effaith ar nifer y defnyddwyr a gofnodwyd ym mis Tachwedd 2022 o 3.2% o aelwydydd cymwys y DU.

Ar 29 Tachwedd 2022, cynhaliodd Llywodraeth y DU uwchgynhadledd i gyd-fynd â lansiad yr ymgyrch tariff cymdeithasol i drafod y rhwystrau a nodwyd i'r rhai nad ydynt yn defnyddio tollau cymdeithasol ar hyn o bryd. Anogodd Gweinidog Digidol y DU, Julia Lopez, gwmnïau telegyfathrebu i ystyried yr effaith y gallai cynnydd mewn prisiau ei chael ar aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd. Mae cwmnïau ffonau symudol a band eang yn cwrdd â gweinidogion i edrych ar gymorth pellach i helpu pobl sy'n wynebu anawsterau costau byw - GOV.UK (www.gov.uk)

Hefyd, mae swyddogion yn ymwybodol oherwydd y cyfraddau chwyddiant presennol, bod darparwyr telegyfathrebu yn bwriadu cynyddu prisiau band eang a chontractau symudol gymaint â 17.3% ym Mawrth/Ebrill 2023. Mae angen deall yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar aelwydydd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd oherwydd costau byw ac a oes cynnydd yn y rhai sy'n dewis datgysylltu.

**Argymhelliad 6**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwaith i ystyried effaith yr argyfwng costau byw ar ei Strategaeth Ddigidol. Dylai adrodd yn ôl ar y casgliadau o fewn y 6 mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae’r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn gosod gweledigaeth ac uchelgais glir ar gyfer technoleg ddigidol yng Nghymru ar draws 6 maes cenhadaeth: gwasanaethau digidol, cynhwysiant, sgiliau, yr economi, cysylltedd a data.

Rydym yn cydnabod y bydd yr argyfwng costau byw yn cael sawl effaith pellgyrhaeddol ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau yng Nghymru. Bydd swyddogion digidol a data Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn adrodd yn ôl ar effeithiau posibl ar draws meysydd cenhadaeth y Strategaeth Ddigidol i Gymru, wrth iddynt gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni sydd wedi'i adnewyddu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Polisi a Chyflawni Digidol Gweinidogol, sy'n adolygu hynt y gwaith cyflenwi yn unol â’r strategaeth, yn canolbwyntio ar eu canfyddiadau ac yn asesu sut mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bob maes cenhadaeth a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd. Byddwn yn rhannu canfyddiadau'r adolygiad hwn gyda'r Pwyllgor.

**Diweddariad:**

Mae swyddogion wedi llunio adroddiad ar effaith yr argyfwng costau byw ar Strategaeth Ddigidol Cymru. Mae hyn wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 7**

Mae’r Pwyllgor yn awgrymu: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd ei Strategaeth Ddigidol yn dileu rhwystrau i grwpiau y mae diffyg cysylltedd digidol yn effeithio’n anghymesur arnynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, drwy genhadaeth dau, yn ei gwneud yn glir ein nod o 'roi’r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a’r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion'.

Drwy ein rhaglen gaffaeledig 'Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles (DCW),' gyda chyllideb flynyddol o £2 filiwn (a ariennir ar y cyd gan yr adrannau cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd), rydym yn gweithio gyda sefydliadau o bob sector all helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu’n ddigidol. Dyluniwyd DCW i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff rheng flaen, gwirfoddolwyr a sefydliadau i ddarganfod a datblygu sgiliau digidol sylfaenol defnyddwyr terfynol (dinasyddion) i gael mynediad at wasanaethau a’u defnyddio. Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw lleddfu rhai o'r rhwystrau a gydnabyddir o safbwynt allgau digidol megis cymhelliant, sgiliau digidol, fforddiadwyedd a mynediad o ran dyfais a chysylltedd. Er nad oes gan DCW adnoddau i ddarparu dyfeisiau a chysylltedd yn uniongyrchol i ddinasyddion, gall ddarparu dyfeisiau benthyg i sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Dechreuodd y contract ar 1 Gorffennaf 2019 ac mae wedi cael ei ymestyn am dair blynedd arall i 30 Mehefin 2025.

Yn ogystal â hynny, mae DCW yn gweithio'n agos gyda Good Things Foundation (elusen yn y DU) ar fenter Banc Data Cenedlaethol, sy'n ceisio darparu data am ddim i grwpiau cymunedol ddosbarthu ledled y DU, gan gynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ddigidol.

**Diweddariad:**

Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 8**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch codi’r symiau sydd ar gael i unigolion a busnesau yng nghefn gwlad Cymru o dan y Cynllun Talebau Gigabit.

**Ymateb: Derbyn**:

Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at ei gymar ar y pryd yn DCMS Julia Lopez AS ynghylch y ffaith bod talebau Gigabit, wedi'u tanariannu yn enwedig mewn meysydd lle mae cyflwyno cysylltedd digidol yn anodd ac yn ddrud. Yn ei hymateb hithau, amlygodd Julia Lopez AS y bydd BDUK yn cynnal adolygiad o'r cynllun dros yr haf ac y bydd y terfyn cyllid yn un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

**Diweddariad**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 2 Rhagfyr 2022 eu bod yn mynd i gynyddu gwerthoedd talebau safonol i breswylwyr a busnesau o £1,500 a £3,500 yn y drefn honno i £4,500 i'r ddwy gynulleidfa, ddod i rym ar 5 Rhagfyr 2023 ar gyfer prosiectau newydd.

**Argymhellion 9**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch lefel y cap ar osodiadau o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol gyda’r nod o sicrhau ei fod yn adlewyrchu cynnydd sylweddol mewn costau a’r argyfwng costau byw parhaus.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cyflwyno sylwadau dro ar ôl tro i Lywodraeth y DU ac Ofcom yn dyddio'n ôl i'r ymgynghoriad dylunio cynharaf ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y DU y byddai cyflwyno cap costau yn gosod yr union safleoedd mewn ardaloedd anghysbell ac yn anodd eu cyrraedd yr oedd yr USO fod i fynd i’r afael â nhw o dan anfantais a bod gwerth y cap ar £3,400 yn briodol er budd y safleoedd hynny. Mae'r pryderon hyn wedi'u cadarnhau wrth weithredu’r cynllun, gyda'r costau a ddyfynnir i drigolion a busnesau yn cyrraedd degau o filoedd o bunnoedd. Byddwn yn parhau i wthio am adolygiad o'r cap costau.

**Diweddariad:**

Mae Ofcom yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro'r USO. Yn ein hymateb i ymgynghoriad Ofcom ar ei gynllun gwaith blynyddol ar gyfer 2023-24 rydym wedi datgan ein bod yn dal i bryderu na fydd Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) yn darparu cysylltedd i'r cartrefi a'r busnesau anoddaf eu cyrraedd yng Nghymru. Yn benodol, nid yw'r cap ar gost adeilad yn dal i adlewyrchu'r realiti o ddarparu ateb band eang cynaliadwy yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Mae gormod o safleoedd yn dal i syrthio y tu allan i gwmpas yr USO. Mae angen i Ofcom

a Llywodraeth y DU ddod at ei gilydd i fynd i'r afael â hyn ar frys. I'r perwyl hwn gwnaethom ofyn am ymrwymiad cyfatebol yn y cynllun gwaith.

**Argymhelliad 10**

Mae’r Pwyllgor yn argymell: Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar ddeddfu i fynnu cysylltedd ffeibr llawn ar gyfer pob datblygiad tai newydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd archwilio sut y gall sicrhau nad yw datblygwyr yn gallu atal perchnogion tai rhag gallu cael gafael ar ddarparwyr eraill.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion eisoes yn datblygu cynigion manwl i'w gwneud yn orfodol darparu band eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit i bob datblygiad tai newydd yng Nghymru drwy ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu.  Gan fod y cynigion yn dal i gael eu datblygu, ni allwn ddarparu mwy o fanylion ar hyn o bryd. Bydd y cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac amcangyfrifir y caiff ei gyhoeddi ar droad y flwyddyn.

**Diweddariad:**

Lansiwyd ymgynghoriad ar gynigion i newid rheoliadau adeiladu i'w gwneud yn ofynnol i bob annedd newydd gael cysylltiad galluog gigabit ar 3 Chwefror 2023.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/81/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

15 Mawrth 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd wedi'i drefnu i'w gynnal ar 23 Mawrth.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwn. Bydd yn canolbwyntio ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU, a Chynllun Twf Sero Net y DU.

Bydd y Grŵp yn cyhoeddi cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod. Byddaf hefyd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.cymru

23 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi fy mod wedi bod mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Ffeiriau Gwledig a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Fi gadeiriodd y cyfarfod, a hefyd yn bresennol yr oedd: Mairi Gougeon ASP,

Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater MSP, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth yn Llywodraeth yr Alban; Rebecca Pow AS, Gweinidog Ansawdd a Chadernid yr Amgylchedd, Mark Spencer AS, y Gweinidog Bwyd, Ffermio a Physgodfeydd, James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i Swyddfa'r Alban, Steve Baker AS, Gweinidog Gwladol Llywodraeth y DU yn Swyddfa Gogledd Iwerddon; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Agorodd y cyfarfod gyda thrafodaeth am Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) sydd, ar hyn o bryd, yn mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Rhoddodd pob un o'r Llywodraethau'r wybodaeth diweddaraf am sut y maent yn mynd ati i nodi ac i gategoreiddio'r Bil, gan ganmol y ffordd gadarnhaol y mae'r gweinyddiaethau wedi ymwneud â'i gilydd yn hynny o beth. Buom hefyd yn trafod y rhaglenni deddfwriaethol

seneddol sydd eu hangen er mwyn dargadw, diddymu neu ddiwygio eitemau unigol o ddeddfwriaeth. Wedyn, rhoddodd Llywodraeth yr Alban yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt eu Cynlluniau Dychwelyd Ernes, a chynhaliwyd trafodaeth am gais Llywodraeth yr Alban i gael ei heithrio o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU.

Wedyn, cyfeiriais at y sefyllfa sydd ohoni o ran prinder bwyd a diogelwch bwyd, gan dynnu sylw at yr angen i gydweithio ar y mater hwn, sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU. Buom yn trafod yr effeithiau cronnol mae materion fel y rhyfel yn Wcráin a phrinder llafur yn parhau i'w cael, a sut y mae'r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y cyflenwad bwyd.

Cytunwyd i drafod mwy ar yr eitem hon yn y Cyfarfod Rhynglywodraethol ym mis Ebrill.

Yn olaf, cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban a minnau at y ffaith bod diffyg cynnydd ar wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ar les anifeiliaid, gan wneud cais am ddiweddariad ysgrifenedig.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun 17 Ebrill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd hysbysiad am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2983/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

10 Mawrth 2023

Annwyl Huw Irranca-Davies AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth ac am adroddiad drafft y Pwyllgor gan gyfreithwyr y Senedd a oedd yn nodi pwyntiau adrodd technegol ac a oedd yn rhan o'u hadolygiad o Reoliadau Pecynnu Gwastraff (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau").

Fel y nodwyd gennych, cafodd y Rheoliadau eu hailosod yn y Senedd ar 14 Chwefror gan ei bod hi’n bwysig bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym cyn gynted ag y bo modd o gofio eu bod yn rhan o gyfres o Reoliadau ar draws y DU. Mae angen y Rheoliadau er mwyn cyflwyno diwygiadau i'r ffordd yr eir ati i reoli deunyddiau pecynnu a sicrhau bod Cymru yn rhan o'r ffordd gydgysylltiedig y bwriedir mynd ati i wneud hynny ar draws y DU.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati o fwriad i osod deddfwriaeth ddiffygiol gerbron y Senedd ac mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn rhan o broses ddatblygu gydgysylltiedig er mwyn sicrhau cyfraith ymarferol a chyson ledled y DU. Gan fod y rheoliadau cyfatebol, sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i gynhyrchwyr adrodd ar ddeunyddiau pecynnu a roddir ar y farchnad bellach mewn grym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mae angen cyflwyno’r rheoliadau cyn gynted â phosibl yng Nghymru.

Fodd bynnag, o ystyried bod adroddiad drafft eich Pwyllgor wedi nodi rhagor o bwyntiau adrodd technegol mewn perthynas â’r Rheoliadau, rydym wedi eu tynnu'n ôl fel y gallant gael eu hystyried cyn eu hailosod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y gwallau a nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 1 Mawrth, rydym yn deall bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno offeryn diwygio er mwyn mynd i’r afael â’r rhain yn eu rheoliadau, ond nid yw’r gwallau yn ymddangos yn y rheoliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y sylwyd arnynt ac fe’u cywirwyd cyn iddynt ddod i rym.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Llywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, at y Cwnsler Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Cyllid**

—

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

8 Mawrth 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad sy'n craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, gwnaethom nifer o argymhellion yn ymwneud â gwella gosodiad y gyllideb. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

O ganlyniad, gan ystyried y profiad o graffu ar y gyllideb eleni a'r nod o sicrhau gwelliannau i'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 a thu hwnt, byddai'n dda gennyf gael barn eich pwyllgorau mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn:

**Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?**

Gofynnir i chi gyfeirio yn eich ymateb at ba mor brydlon a pha mor ddefnyddiol oedd unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth a ddaeth i law, ac at safon y ddogfennaeth a/neu dystiolaeth hynny.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymatebion erbyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2023**. Yna bydd eich safbwyntiau yn cael eu coladu a'u bwydo yn ôl i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i'w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Cyllideb 2024-25, a fydd yn cael ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gynhelir cyn toriad yr haf.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon